Cyfarfod â'r Undebau Llafur, 21 Medi 2011

1. Amser Dyletswyddau Undebau Llafur

Cafodd fersiwn drafft o Brotocol Amser Dyletswyddau Undebau Llafur ei ddosbarthu i'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur er mwyn iddynt gyfrannu iddo a rhoi eu sylwadau arno. Gofynnwyd iddynt roi eu hadborth cyn gynted ag y bo'n gyfleus.

2. Statws Unffurf

Yn seiliedig ar sylwadau'r Undebau Llafur a'r staff eu hunain, gwnaed y newidiadau canlynol i'n cynigion gwreiddiol:-

2.1 Telir amser dwbl (ac nid amser a hanner) am weithio ar wyliau banc
2.2 Cynyddwyd y taliadau 'aros galwad' o £26.50 i £53
2.3 Cytunwyd i ddileu pwynt 4 ar golofn gyflogau'r model cyflogau newydd. Bydd y man cychwyn ar gyfer staff yn codi i £12,312 bellach.

3. Materion y mae angen eu Hegluro ymhellach

3.1 Ni fydd y gweithwyr yn talu treth nac Yswiriant Gwladol ar y Taliadau yn ôl Disgresiwn o £1,000.
3.2 Ni fydd y gweithwyr yn talu treth nac Yswiriant Gwladol ar y Taliadau yn ôl Disgresiwn o £250 (i'r rhai sy'n ennill dan £21,000).
(Bydd y Cyngor yn talu'r holl elfennau Treth ac Yswiriant Gwladol.)
3.3 Cafwyd cadarnhad nad oes gan yr Awdurdod gynlluniau i edrych eto ar y telerau a'r amodau ar ôl 2013.
3.4 Nid yw llofnodi'r Datganiad o Wybodaeth Bersonol yn effeithio ar unrhyw Hawliadau Cyflog Cyfartal sydd eisoes yn bodoli.
3.5 Os bydd gweithiwr yn llofnodi'r Datganiad o Wybodaeth Bersonol erbyn 30ain Medi bydd modd iddo/iddi gael y Taliadau yn ôl Disgresiwn wrth Weithredu'r Statws Unffurf.

4. Cynllun Terfynu Cyflogaeth

4.1 Bydd y Cyngor yn annog yr hyblygrwydd mwyaf er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n gymwys i gyrchu'r cynllun terfynu cyflogaeth yn gallu gwneud hynny; bydd hyn yn cynnwys trafodaethau ag ysgolion ynghylch staff sy'n gweithio mewn ysgolion.
4.2 Er y bydd y Cyngor yn canolbwyntio i ddechrau ar y cylchoedd coch, gall ystyriaeth bellach gael ei rhoi i ehangu'r cynllun i gynnwys y cylchoedd gwyn a'r cylchoedd gwyrdd yn amodol ar ystyriaethau achos busnes.
4.3 Cytunwyd i gydweithio â'r Undebau Llafur i edrych ar achosion y rhai sydd wedi cael colled ariannol ddifrifol er mwyn lleddfu eu sefyllfa o bosibl.

5. Cyffredinol

5.1 Bydd cyfanswm y cynnydd yn y gost o ran y bil cyflogau yn codi i £6.5 miliwn ac o ganlyniad i'r pwyntiau uchod, bydd cost ychwanegol, un tro yn unig, o £700,000 i dalu am yr Yswiriant Gwladol a'r Dreth sy'n berthnasol i'r Taliadau yn ôl Disgresiwn wrth Weithredu, sef cost y bydd y Cyngor yn ei dalu.
5.2 Yr un fydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb, sef 30ain Medi 2011.
5.3 Ni fydd cytuno i dderbyn y cynigion Statws Unffurf a'r Cytundeb COT3 yn dylanwadu ar unrhyw apêl yn erbyn y sgôr Gwerthuso Swydd.
5.4 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl yw'r 31ain Rhagfyr 2011.
5.5 Cytunwyd i gyfarfod eto ar ôl y 30ain Medi, sef y dyddiad cau.